

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 7 Mai 2021

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 13 MAI 2021** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 (copi ynghlwm).

10.05 – 10.10 a.m.

5 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNNYDD Y MODEL GWEITHREDU NEWYDD AR GYFER GWASTRAFF AC AILGYLCHU
(Tudalennau 11 - 86)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol (copi'n amgaeedig) sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor, y Cynllun Gwireddu Buddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am y dulliau cyfathrebu ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd.

10.10 – 10.50 a.m.

6 ASESAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR – CYNNIG I SEFYDLU GRŴP TASG A GORFFEN (Tudalennau 87 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (copi'n amgaeedig) sy'n ceisio derbyn cymeradwyaeth y pwyllgor i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, a chytuno ar y cylch gorchwyl, i gefnogi gwaith y Cyngor o ran yr Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr.

10.50 – 11.30 a.m.

EGWYL 11.30 - 11.45 a.m.

7 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU (Tudalennau 97 - 116)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11.45 – 12.00. Canol Dydd

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol fyrddau a grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn via video conference ar Dydd Iau, 11 Mawrth 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Graham Timms (Is-Gadeirydd) a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

Aelodau'r Cabinet – y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a'r Cyngorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr - Y Cyngorydd Barry Mellor, Y Cyngorydd Rhys Thomas, Y Cyngorydd Julian Thompson Hill, Y Cyngorydd Emrys Wynne a/ac Y Cyngorydd Mark John Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Pennaeth Cynllunio, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a Chefn Gwlad (EJ), Swyddog Arweiniol – Rheoli Asedau Strategol (TB), Uwch-ymarferydd (LA), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (SJ ac SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Cheryl Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5 SIPSIWN A THEITHWYR - GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU A GWEITHDREFNAU DRAFFT GWERSYLLOEDD ANSWYDDOGOL

Esboniodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i'r aelodau y bu iddo lunio'r adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar y cyd â'r Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Amlygwyd i'r aelodau bod yr adroddiad yn dangos y ffordd orau o wella'r broses wrth gynnal ymweliadau â gweryslyoedd diawdurdod. Esboniodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol y cytunwyd protocol rhanbarthol yng ngogledd Cymru yn 2015 ar gyfer Rheoli Gweryslyoedd Diawdurdod. Yn sgil hynny cyflwynwyd adroddiad i'r Uwch Dîm Arwain a roes grynoded o'r trefniadau oedd ar waith. Ers hynny roedd yr Uwch Dîm Arwain wedi gwneud argymhellion ar gyfer datblygu a diwygio'r prosesau.

Hysbyswyd yr aelodau o'r trefniadau cyfreithiol a'r pwerau'r oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi'u sefydlu. Yn ystod y pandemig Covid-19 roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â symud gweryslyoedd a throi trigolion allan, a oedd yn datgan na ddylid symud gweryslyoedd diawdurdod na throi'r trigolion allan oni bai fod eu presenoldeb yn peri peryglon enbyd i ddiogelwch ac iechyd y cyhoedd.

Esboniwyd y câi pob achos ei drin yn ôl ei rinweddau unigol ac y dilynwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. Mabwysiadwyd asesiad lles cychwynnol i ganfod y dull gorau o ymyrryd. Roedd y canllawiau'n pwysleisio mai'r arfer orau oedd sefydlu un pwynt cyswllt. Yr unigolyn dan sylw a fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gwestiynau ac ymholiadau ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr. Argymhellwyd y dylid mabwysiadu dewis B o blith y cynigion a gyflwynwyd. Roedd y dewis hwn eisoes wedi cael sêl bendith yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet mewn sesiwn briffio. Clywodd yr aelodau bod y dewis hwnnw'n cynnwys swydd Un Pwynt Cyswllt a fyddai yn y pen draw'n dod yn rhan o'r Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata dan arweiniad Liz Grieve.

Esboniodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel y gwahaniaeth rhwng gweryslyoedd ar dir oedd yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych a gweryslyoedd ar dir ym mherchnogaeth eraill. Esboniwyd y weithdrefn yn y ddau achos i'r aelodau.

Cadarnhawyd y bu cryn gydweithio rhwng gwasanaethau wrth gasglu gwybodaeth, a chyfrannwyd llawer o amser gan swyddogion. Roedd y gwaith wedi amlygu mor fuddiol a phwysig oedd gweithio rhwng gwasanaethau wrth ymdrin â gweryslyoedd answyddogol Sipsiwn a Theithwyr, a sut fyddai ymdrin â'r gwaith yn gorfforaethol yn gallu arwain at well gwasanaeth i bawb yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Aelodau Arweiniol mor bwysig oedd cael yr un pwynt cyswllt wrth fabwysiadu'r dull corfforaethol hwn. Gallai trefniadau gweithio rhanbarthol a rhwng siroedd ddatblygu dros amser, a byddai deiliad y swydd newydd yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad a'r adroddiad manwl. Wrth drafod yr adroddiad, ymhelaethodd y swyddogion ac Aelodau Arweiniol ar y materion canlynol:

- Esboniwyd pa fath o wersylloedd answyddogol a gafwyd yn Sir Ddinbych, a faint ohonynt oedd yno. Hysbyswyd yr aelodau fod gwerysilloedd a sefydlid am hyd yn oed noson neu ddwy yn unig yn medru achosi problemau mawr. Roedd hi'n anodd darparu ffigyrau manwl gywir o'r nifer o wersylloedd a sefydlid ar dir nad oedd Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno, gan na hysbysid swyddogion ohonynt yn aml iawn. Hyderid y byddai'r pwynt cyswllt newydd yn cryfhau'r cysylltiad â'r gymuned, gan ei gwneud yn haws i bobl hysbysu'r Cyngor o wersylloedd.
- Byddai deiliad y swydd arfaethedig yn gweithio'n agos â gwerysilloedd dros dro. Byddai gwaith ymgysylltu a chyfathrebu gan swyddogion o wahanol rannau o'r Cyngor yn parhau, a byddai'r swydd newydd arfaethedig yn allweddol wrth hwyluso a chryfhau cyfathrebu rhwng yr holl randdeiliaid oedd yn gysylltiedig â gwerysilloedd answyddogol neu'n cael eu heffeithio ganddynt. Byddai creu'r swydd hefyd yn rhannu'r cyfrifoldebau'n bendant rhwng yr elfennau lles, a fyddai yng ngofal y swyddog newydd, ac unrhyw waith cyfreithiol ar gyfer troi allan, a ddyrennid i feiliaid allanol.
- Yn ystod y pandemig Covid-19 hysbyswyd y Cyngor o dri o wersylloedd answyddogol a sefydlwyd. Roedd dau o'r rheiny ar dir y Cyngor ac un ar dir preifat. Oherwydd y cyfyngiadau ar deithio fe welwyd fod y niferoedd wedi gostwng. Un o ganllawiau Llywodraeth Cymru oedd na ddylid cyflwyno hysbysiadu troi allan i Sipsiwn a Theithwyr oni bai fod lleoliad arall ar gael iddynt godi gwerysill.
- Y bwriad oedd i ddeiliad y swydd godi ymwybyddiaeth a meithrin cydnerthedd yn y gymuned, o fewn Cyngor Sir Ddinbych ac ymysg Sipsiwn a Theithwyr. Byddai'r swyddog yn gweithio â'r holl randdeiliaid gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau. Cadarnhawyd y daeth yr Uwch Dîm Arwain i'r casgliad mai'r lle gorau i'r swydd fyddai'r Adain Tai Cymunedol yn y Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata, gan fod gwerysilloedd answyddogol yn fater tai cymunedol, ac y byddai'r swyddog yn medru ymgysylltu â'r holl randdeiliaid o fod yn rhan o'r Gwasanaeth hwnnw.
- Cadarnhawyd fod cyfathrebu agored yn dal i ddigwydd rhwng y Cyngor a'r Heddlu a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.
- Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo'r aelodau mai amser swyddogion oedd y gost anuniongyrchol fwyaf i'r Cyngor wrth ymdrin â gwerysilloedd answyddogol. Roedd yr adnoddau presennol yn talu'r rhan helaeth o'r costau hynny, ond sefydlwyd cod costau canolog â chyllideb flynyddol o £20,000 ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol a godai.
- Cadarnhawyd y cynhaliwyd ymweliadau lles yn y tri o wersylloedd yr hysbyswyd y Cyngor ohonynt yn y misoedd diwethaf. Cynhaliwyd pob ymweliad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd yr ymweliadau'n rhai anymwithiol a chynigiwyd cymorth i bawb. Cafwyd ymateb da i'r ymweliadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu gwaith ar y dull arfaethedig o ymdrin â gwerysilloedd answyddogol a'r weithdrefn ar gyfer hynny.

Felly,

PENDERFYNWYD bod yr aelodau o blaid y datblygiadau a phenderfyniadau diweddar ynghylch y modd y mae'r Cyngor yn ymateb i wersylloedd answyddogol gan Sipsiwn a Theithwyr.

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Bu trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

- Cadarnhawyd yr eitemau a restrwyd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod dilynol ar 13 Mai 2021. Cadarnhaodd y Swyddogion a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai modd cynnwys yr eitemau ar y rhaglen y gofynnwyd amdanynt.
- Thema Adfer wedi COVID-19: cytunodd y Cadeirydd y dylid gohirio'r adroddiad ar Adeiladau'r Cyngor tan fis Gorffennaf 2021, oherwydd y sefyllfa gyfredol gyda'r pandemig.
- Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflenni cynnig ynghylch pynciau i graffu arnynt.
- Dosbarthwyd y ddogfen Briff Gwybodaeth i'r aelodau cyn y cyfarfod, ac roedd yn cynnwys tri o adroddiadau.
- Byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn trafod Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir ar Lannau Afonydd, gan obeithio cynnal y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y gwelliannau a'r ychwanegiadau i'r drafft o'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a gynigiwyd yn ystod y cyfarfod, cadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr pwyllgorau.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 a.m.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod:	13 Mai 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Y Cyng. Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur yr adroddiad:	Tara Dumas, Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu
Teitl:	Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Model Gweithredu Newydd ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu: Cyfathrebu, Dylunio Gwasanaeth a Gwireddu Buddion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Ar 18 Rhagfyr 2018 cymeradwyodd y Cabinet fodel gweithredu newydd ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ac ailgylchu o aelwydydd h.y. casgliad wythnosol ar gyfer deunyddiau ailgylchu wedi'u didoli a chasgliad gwastraff gweddilliol bob pedair wythnos. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y Cynllun Cyfathrebu diweddaraf ar gyfer lansio'r gwasanaeth newydd; y Cynllun Gwireddu Buddion sy'n amlinellu cyfres o fuddion ariannol, amgylcheddol a buddion i weithwyr a chwsmeriaid; ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddyluniad y gwasanaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 24 Hydref 2019 (cofnod 7) gofynnodd yr Aelodau am adroddiad diweddarau a Chynllun Gwireddu Buddion yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau cyfathrebu.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod yr Aelodau yn gwneud sylwadau ar gynnydd y tîm prosiect o ran darparu Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd i breswylwyr erbyn haf 2023.
- 3.2. Bod yr Aelodau yn ystyried ac yn cefnogi'r Cynllun Gwireddu Buddion (Atodiad II) ac yn gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol gadw llygad ar gyflawni'r buddion drwy'r Cynllun Gwasanaeth Blyneddol o 2023/24 ymlaen.
- 3.3. Bod Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ganlyniadau'r prosiect peilot yng

Ngorllewin y Rhyl (defnyddio microsglodion mewn cynwysyddion gwastraff) a Bron y Crest (newid gwasanaeth biniau cymunedol).

- 3.4. Bod yr Aelodau'n cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad VII) fel rhan o'u hystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Diweddariad Cyffredinol

Mae gweithredu'r newid gwasanaeth yma'n gymhleth iawn ac yn cynnwys nifer o "ffrydiau gwaith". Mae amseriad prif lansiad y gwasanaeth deunyddiau ailgylchu wedi'u didoli yn dibynnu ar ddyddiad cwblhau'r depo canolog newydd wrth ymyl Stad Ddiwydiannol Colomendy yn Ninbych. Ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor mae'r pryniant tir (gan Gyngor Sir Ddinbych a chonsortium o fusnesau lleol) wedi'i gwblhau ac mae caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun y safle a'r adeiladau wedi'i gymeradwyo. Ar ôl oedi rhwystredig ac anochel yn sgil pandemig Covid-19, a'r cymhlethodd ychwanegol wrth weithio fel rhan o gonsortium, mae cynnydd da yn cael ei wneud erbyn hyn. Mae'r contract Cam 1 ar gyfer y sylfeini wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar ac mae disgwyl i'r gwaith ddechrau yn yr haf. Yn ôl y rhagamcaniadau diweddaraf bydd y depo yn gallu derbyn yr holl ffrydiau gwastraff ddechrau haf 2023. Mae amlinelliad o'r holl ffrydiau gwaith a'r cerrig milltir allweddol wedi'u darlunio yn y ffeithlun yn Atodiad I.

4.2. Cynllun Gwireddu Buddion

Mae'n bwysig atgoffa Aelodau bod penderfyniad y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 yn bennaf yn seiliedig ar fuddion amgylcheddol ac economaidd ehangach, yn cynnwys:

- Gwella perfformiad y gwasanaeth ailgylchu i gwrdd â'r targed 70% erbyn 2024/25; Diogelu'r gwasanaeth at y dyfodol o ran newidiadau polisi a deddfwriaethau gwastraff; Cynyddu gwerth ac ansawdd y deunyddiau i gwrdd â gofynion Economi Gylchol; Moderneiddio'r gwasanaeth a'r hen isadeiledd depo; Cynyddu cyfleoedd gwaith drwy'r gwasanaeth a'r gymuned fusnes ehangach

Mae Atodiad II yn nodi 11 budd allweddol o'r newid gwasanaeth a sut byddwn yn eu mesur. Yn wreiddiol, roeddem wedi rhagweld y byddai'r perfformiad ailgylchu yn sgil y newid yn codi o 64% i oddeutu 68%. Mae datblygiadau technoleg allweddol, a chymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r cyllid Economi Gylchol, yn golygu ein bod ni rwan ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed 70% heriol. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys:

- Moderneiddio'r gwasanaeth gwastraff drwy ddefnyddio technoleg cab i wella dibynadwyedd y gwasanaeth (mae dibynadwyedd y gwasanaeth a boddhad cwsmer da yn un o'r ffactorau pwysicaf i annog pobl i gydymffurfio â'r cynlluniau ailgylchu ymyl palmant)

- Defnyddio microsglodion mewn biniau gwastraff gweddilliol i dargedu ymyraethau lle mae eu hangen fwyaf
- Sefydlu “Uned Newid Ymddygiad” o fewn y gwasanaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd prosesau ymgysylltu, addysg a gorfodi
- Cyfleusterau trin posibl ar gyfer ffrwd waith ailgylchu cynnyrch hylendid amsugol (clytiau a gwastraff anymataliaeth) a fydd yn cael eu casglu ar wahân o fis Ebrill 2023 ymlaen. Rydym ni'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill a Llywodraeth Cymru i gaffael cyfleuster trin cynnyrch hylendid amsugol yn y gogledd a'r de. Bydd canlyniad y prosiect, a hyfywedd y datrysiadau arfaethedig a gyflwynir gan gynigwyr, yn hysbys fis Gorffennaf 2021. Os yn llwyddiannus, bydd y prosiect yn darparu datrysiad lleol i'r ffrwd wastraff anodd a llawn carbon hwn. Cynigir mai Cyngor Sir Ddinbych ddylai weithredu'r cyfleuster os yw'n cael ei leoli yn Sir Ddinbych
- Mwy o le mewn cynwysyddion i roi gwastraff ar gyfer ei gasglu, i leihau'r gwastraff sy'n disgyn allan i'r amgylchedd (618 litr yn ychwanegol bob pedair wythnos ar y gwasanaeth safonol, ac eithrio casgliadau'r ffrwd wastraff newydd)

Mae'r dyddiad newid gwasanaeth yn rhoi cyfle i ni archwilio newid sylweddol i gerbydau allyriadau isel iawn. Bydd data profion Llywodraeth Cymru ar gael yn ddiweddarach eleni, mewn pryd i hysbysu ein gweithgareddau caffael fflyd fis Ionawr 2022.

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio ail ymgynghoriad ynghylch Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Ehangach. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yma'n sicrhau bod cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwr a chyflenwyr allweddol (yn cynnwys masnachwyr ar-lein mawr) yn ariannol rhwym i adennill cost eu deunyddiau pecynnu, ac yn eu cymell i wneud cynnyrch y mae modd ei ailgylchu a chynnyrch wedi'i greu allan o fwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Y prif sbardun ar gyfer y cynllun hwn yw sicrhau ansawdd y deunyddiau rydym ni'n eu casglu i'w hailgylchu. Bydd y cyllid yn cael ei atal os na gyrhaeddir y safonau ansawdd. Bydd y taliadau yn dechrau fis Hydref 2023, ar ôl i Gyngor Sir Ddinbych gwblhau'r newid gwasanaeth a lansio gwasanaeth ailgylchu lle mae'r deunyddiau'n cael eu gwahanu gan aelwydydd. Felly Sir Ddinbych fydd yn y lle gorau i wireddu buddion ariannol y ddeddfwriaeth newydd yma. Mae sgysiau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, yn glŷn â sut y bydd newid gwasanaeth Sir Ddinbych yn cynnwys ffrydiau deunyddiau newydd, fel ffilm blastig, o ganlyniad i ofynion Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Ehangach i adennill y gwastraff yma yn y dyfodol, wedi'u trefnu. Gall amseriad newydd ein newid gwasanaeth alluogi cynnal profion i gynorthwyo'r diwydiant gwastraff i ddatblygu isadeiledd trin.

4.3 Diweddariad ar Ddyluniad y Gwasanaeth

Cymeradwyodd y Cabinet ddyluniad safonol y gwasanaeth ar 18 Rhagfyr 2018. Mae'r dyluniad gwasanaeth diweddaraf yn Atodiad III, sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol fathau o eiddo. Bydd gan bob preswlydd yr hawl i dderbyn gwasanaeth ailgylchu wythnosol (yn cynnwys gwastraff bwyd). Bydd amlder y casgliadau

gwastraff gweddilliol yn dibynnu ar y cynhwysydd gwastraff, gyda phawb sydd â bin ar ddwy olwyn yn derbyn gwasanaeth gwastraff gweddilliol bob pedair wythnos. Bydd ffrydiau gwastraff eitemau eraill y gellir eu hailgylchu (batris, eitemau trydanol ac electronig bach a thecstilau) a chynnyrch hylendid amsugol (dewisol) hefyd ar gael.

Mae nifer o ddiweddariadau a gwelliannau wedi'u gwneud ers yr adroddiad diwethaf, sef:

- Mae cynhwysydd canol y Troli Bocs “gwasanaeth safonol” (i gasglu caniau a phlastig) wedi'i wneud yn fwy – o 55l i 70l
- Bydd y Troli Bocs yn ddu gyda fflapiau lliw i helpu pobl i gofio beth sy'n mynd ymhob cynhwysydd. Bydd y bocsys yn cynnwys cyfarwyddiadau didoli. Bydd hyd at hanner cwsmeriaid gwastraff masnachol y Cyngor yn cael dewis defnyddio Troli Bocs hefyd. Bydd lliw'r rhain yn wahanol i gynhwysyddion aelwydydd
- Bydd biniau cymunedol yn ddu gyda chaeadau lliw cyfatebol. Mae safle prawf wedi'i ddewis (Bron y Crest, Dinbych, dan reolaeth Tai Cyngor Sir Ddinbych) a bydd y gwasanaeth deunyddiau ailgylchu wedi'u didoli'n barod yn cael ei lansio yno yn ddiweddarach eleni
- Mae'r cynnydd sydyn a pharhaus mewn deunydd pacio cerdyn brown oherwydd y pandemig wedi sbarduno newidiadau diwydiant sylweddol yn y farchnad “mwydion” (papur a cherdyn). Mae'r gwasanaeth yn aros am ganlyniad adroddiad WRAP (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru) ar bapur a cherdyn ond mae'n debygol y bydd papur a cherdyn llwyd yn cael eu casglu gyda'i gilydd, gyda cherdyn brown ar wahân. Mae hyn yn debyg i drefniadau awdurdodau cyfagos. Mae maint y sachau wedi'i wneud yn fwy hefyd (i 120l) ac maent yn cynnwys bachyn i'w gosod ar y Troli Bocs ar ôl eu gwagio

4.4 Diweddariad ar Gyfathrebu: Paratoi ein preswylwyr ar gyfer newid

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cydnabod pwysigrwydd paratoi preswylwyr a gweithwyr ar gyfer y model gweithredu newydd. Mae Atodiad IV yn amlinellu'r cynllun cyfathrebu hyd yma. Bydd y cynllun yn parhau i esblygu wrth i'r newid gwasanaeth agosáu ac wrth i'r gefnogaeth drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill ddatblygu.

Mae Gorllewin y Rhyl yn destun ffrwd waith benodol o fewn y Prosiect Gwastraff. Mae'r nifer fawr o dai amlfeddiannaeth ac eiddo gyda thenantiaid, yn ogystal â heriau cymdeithasol sy'n nodweddiadol mewn ardal o amddifadedd uchel, yn gofyn i'r gwasanaeth roi mwy o ystyriaeth i'r newid i wasanaeth ailgylchu sy'n gofyn i'r aelwydydd ddidoli'r deunyddiau. Mae'r newid gwasanaeth hefyd yn gyfle i fynd i'r afael â materion hanesyddol sy'n effeithio ar Ansawdd Amgylcheddol Lleol yr ardal, fel gwylanod yn ymosod ar fagiau gwastraff sydd wedi'u gadael allan a diffyg lle i storio cynwysyddion gwastraff. Mae Atodiad V yn manylu ar Gynllun Symud ar gyfer Gorllewin y Rhyl a'r cynnydd hyd yma. Yn ystod y chwe mis diwethaf mae WRAP wedi cefnogi'r gwasanaeth i gynhyrchu cyfres o ddeunyddiau cyfathrebu (Atodiad

VI) er mwyn annog preswylwyr i gydymffurfio â'r gwasanaeth presennol a'u paratoi ar gyfer y newidiadau. Mae'r ddau gam newid gwasanaeth cyntaf (i'w cwblhau erbyn mis Mawrth 2021) yn ceisio cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Ffurfioli trefniadau gyda landlordiaid trwyddedig a darparwyr tai
- Annog yr aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth sach presennol i gydymffurfio â'r gwasanaeth ac i ailgylchu mwy, a rhoi eu gwastraff mewn sachau sy'n gwrthsefyll ymosodiadau gan wylanod a defnyddio'r sach binc/glir untro yn gywir (h.y. defnyddio llai ar fagiau duon)
- Microsglodynnu cynwysyddion (biniau olwynion a sachau sy'n gwrthsefyll ymosodiadau gan wylanod) – cynllun prawf i werthuso buddion o ran lleihau'r gwastraff sy'n dod allan o fagiau, biniau'n cael eu gadael/gadael allan/dwyn, deunyddiau ailgylchu'n cael eu llygru, cyfraddau ailgylchu

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Gweler adroddiad i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018. Yn ogystal, mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad sylweddol at uchelgais y Cyngor i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Cyngor yn dal i weithredu o fewn y ffenestr fforddiadwyedd a nodwyd gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 i leihau costau blynyddol y gwasanaeth £500,000 neu fwy. Mae cyfanswm cost darparu'r model gweithredu newydd ar gyfer gwastraff yn £17.5 miliwn, yn cynnwys dyraniad risg o £1.9 miliwn a chyfraniad grant gan Lywodraeth Cymru o £9.38 miliwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les gwreiddiol a gynhaliwyd yn 2018 wedi'i ddiweddarau, gan ystyried canfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (2019) o sut mae'r Cyngor wedi rhoi'r 5 ffordd o weithio ar waith (Atodiad VII). Mae'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth ers dechrau'r prosiect wedi arwain at fwy o ganlyniadau cadarnhaol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Yn 2018 cynhaliwyd arolwg Ailgylchwch Fwy. Yn ogystal â'r grwpiau hynny a ymgysylltwyd a nhw hyd at yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar 24 Hydref 2019, mae'r gwasanaeth hefyd wedi adrodd wrth; Briffio'r Cabinet (yr wybodaeth ddiweddaraf am y depo) Hydref 2020 ac Ebrill 2021; Pwyllgor Craffu Perfformiad (elfen Gwastraff Masnachol) Mawrth 2021; a SIG (Microsglodynnu a thechnoleg yn y cab) Mawrth 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r adroddiad yn nodi'n glir sut mae'r prosiect yn bwriadu monitro'r elfen gwireddu buddion. Ni cheir costau uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn ond mae'n

bwysig bod y prosiect yn parhau i weithredu o fewn y ffenestr fforddiadwyedd a bennwyd gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 i leihau costau blynyddol y gwasanaeth £500,000 neu fwy fel y nodir yn adran 6. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?


10.1. Cedwir cofrestr risg gynhwysfawr ar system Verto'r Cyngor sy'n cael ei monitro gan y Bwrdd Prosiect.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol (2000)

11.2 Adran 7.4 Cyfansoddiad y Cyngor

Appendix I: New Waste Operating Model Key Milestones



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix II: Benefits Realisation Plan, New Waste Operating Model

ID	Benefit to be Delivered	Period over which benefits will be realised	Milestones	Key Dates for specific outcomes	Lead Officer(s)	Dependencies
BEN.4703.01	Annual Saving in costs to deliver Waste Service against current Service Baseline (£500K min)	Financial Year following implementation of new Service Model	Review progress against savings target quarterly following implementation	From June 2023	Tara Dumas	Full roll out and bedding in of new Service Model
BEN.4703.02	Extended Producer Responsibility Scheme ready - providing high quality materials to market to optimise collection scheme support from producers (£)	Scheme starts October 2023	Annually from Q3 2023	From Q3 2023 onwards	Tara Dumas	EPR consultation (Phase 2) currently live. Funding levels/criteria and dates yet to be finalised by UK Government. Source segregated service guarantees optimal income for recycling packaging collected.
BEN.4703.03	Achieve 2024/25 statutory 70% recycling target	2024/25	Statutory quarterly Waste Data Flow submissions -ongoing	May 2025 for unverified data/Sept 2025 for verified data	Tara Dumas	See below
BEN.4703.03a	Improved Recycling Performance through reduced residual waste capacity (increasing capture of recyclable materials currently collected)	Ongoing	Quarterly & Annual waste data flow	From June 2023	Tara Dumas	Full roll out and bedding in of new Service Model




ID	Benefit to be Delivered	Period over which benefits will be realised	Milestones	Key Dates for specific outcomes	Lead Officer(s)	Dependencies
BEN.4703.03b	Absorbent Hygiene Product (AHP) waste collected from Spring 2023 to be recycled from 2024/25	2024/25 onwards	Quarterly & Annual waste data flow	2024/25 full year effect of AHP treatment	Tara Dumas	Fully dependant of successful procurement of AHP Treatment technology provider (known Summer 2021)
BEN.4703.03c	Improved Recycling Performance through introduction of microchipped containers for residual waste	2023/24 onwards	All gull proof sacks chipped and issued by September 2021. Bins chipped March 2021. Roll out of new chipped bins 2023.	Part year effect on recycling performance felt 2023/24 (known April 2024) Full year effect 2024/25 known April 2025.	Tara Dumas	Full roll out and bedding in of new Service Model
BEN.4703.03d	Improved Recycling Performance through introduction of new WEEE (Waste Electronic and Electrical Equipment) kerbside service and batteries plus full coverage for textile service	2023/24 onwards	Textile expansion to 70% of county by March 2022. remainder during full service roll out 23/24	Part year effect on recycling performance felt 2023/24 (known April 2024) Full year effect 2024/25 known April 2025.	Tara Dumas	Full roll out and bedding in of new Service Model. Linked to Circular Economy Funding bid secured Jan 2021.
BEN.4703.04	Facilitation of option for neighbouring Businesses in Colomendy Estate to expand	July 2022 onwards	Delivery of Phase 1 Enabling Contract - July 2022	From July 2022	Peter Clayton	Completion of Phase 1 Enabling Contract




ID	Benefit to be Delivered	Period over which benefits will be realised	Milestones	Key Dates for specific outcomes	Lead Officer(s)	Dependencies
BEN.4703.06	Improved kerbside service reliability through implementation of in Cab technology.	September 2023 onwards	KPI suit established April 2021 onwards to measure missed bin , bin delivery issues and customer complaints on a quarterly basis.	Annual report 21/22. 22/23, 23/24.	Jamie Lees / Jane Williams	Procurement of In Cab technology provider 2021/22 and fully integrated by March 2022
BEN.4703.07	Reduced mileage and associated carbon emissions (6% target) through improved service reliability	To be proved Q1 2023 before re-routing	Baseline established from 2021/22 data Q1	Q1 2022/23 (before routing changes)	Jamie Lees	Procurement of In Cab technology provider 2021/22 and fully integrated by March 2022.
BEN.4703.08	Low Carbon Technology - Photovoltaics, Air Source Heat Pump, EV Charge Points, Rainwater Harvesting to new Depot Building	Following completion of Phase 2 Depot Development - July 2022 - May 2023	Quarterly & Annual running costs / energy usage stats reviews	Annual building performance from May 2023 onwards	Rob Jones / Dan Owens	Phase 2 Depot Development
BEN.4703.09	Reduced carbon emissions from waste collection fleet due to introduction of ULEV's	TBC - Jan 2022 orders for new Fleet to be placed following WG trials to prove concepts - will determine number ordered	Roll out of ULEV's in support of new model from June 2023 onwards	Annual fleet performance reviews following roll out of ULEV fleet in support of new model	Chris Brown	Operational use of ULEV Fleet out of new Depot






ID	Benefit to be Delivered	Period over which benefits will be realised	Milestones	Key Dates for specific outcomes	Lead Officer(s)	Dependencies
BEN.4703.10	Increased employment associated with new Team structure to support new Waste Model - 20+ FTE	From July 2023	Roll Out of new Service Model	April to July 2023 Increase in FTE's recruited and increase in agency hours to be monitored against KAT model projections.	Tara Dumas	Operational set up of new staffing model to support new Service model
BEN.4703.11	Customer benefit: Greater containerised capacity to store and present segregated waste streams (600L+ every four weeks) has potential to reduce littering from overflowing bin.	From July 2023	Procurement of containers. Roll out of new Service Model	July 2023 Regular Keep Wales Tidy / DCC litter surveys will identify impacts to cleanliness standards (local environmental quality)	Tara Dumas	Full roll out and bedding in of new service model.

Appendix III: Container and Service Design

TABLE 1: STANDARD SERVICE PROVISION

Household Waste Type	Container Provision	Frequency	Collection method (New Service)	Weekly Capacity	Regulation
Food Waste	5l Silver kitchen caddy, 23l orange kerbside caddy and supply of compostable liners 	Weekly	Kerbside Source Segregated – single pass (DCC)	23L	Mandatory requirement that will be strictly enforced All food waste presented is only accepted in the orange collection bin Participation will be monitored.
Dry recyclables: Top box: Paper (with or without grey card) 40l Middle Box cans/tins, plastic bottles and containers, cartons 70l Bottom box: Glass bottles and jars 55l	Trolliboc stackable boxes Black with coloured flaps to match Recycle Now Iconography. 	Weekly		165L	All recyclable items presented are not allowed in the black residual bin. Incorrect items will be left in the Trolliboc so households can dispose of correctly. Brown card to be presented in a re-useable sack, attached to the Trolliboc.

Cardboard (Mixed or brown tbd)	<p>1 x 120l re-useable blue sack</p> 	Weekly		120l	
Small electrical devices (WEEE e.g. toasters, kettles, shavers)	<p>Householders present in own disposable carrier bag or cardboard box to keep dry</p>	Weekly		Max 25l	<p>Electrical items must be small enough to fit in a carrier bag, due to limited space on collection vehicle. Larger items will be rejected and residents advised to take to nearest Household Recycling Centre.</p>
Household Batteries	<p>Small reusable clip that clips onto the food waste caddy handle</p> 	Weekly		0.2l	<p>Residents may take batteries to a range of outlets or present kerbside. Batteries are not allowed in any other container due to fire risk.</p>

Textiles/shoes	<p>Red charity DCC/ logo disposable sack(s) (replacement left at time of collection or can be requested from charity.)</p> 	Every two weeks	<p>Co-Options (DCC based charity)- same day of the week as DCC Recycling service</p> 	35l	<p>Optional service as residents may send textiles to range of charities</p> <p>Textiles are not allowed in the black bin.</p> <p>Textiles must be kept dry.</p> <p>May present more than one bag.</p>
Residual Waste (Non-recyclable waste)	<p>Black wheeled bin (Up to 240l)</p> 	Every 4 weeks	<p>Refuse Collection Vehicle</p> 	60L	<p>All residual waste must be fully contained within the allocated receptacles. Side waste is not permitted and will not be taken. Households failing to separate recyclables from the residual stream will be subject to a 4 stage advisory/enforcement procedure.</p> <p>Bins to be microchipped in order to monitor compliance and carry out targeted intervention work to optimise pro-recycling behaviours</p>
Garden Waste	<p>Green Wheeled bin (140l)</p> 	Every 2 weeks		Unlimited capacity may be purchased	<p>Opt-In chargeable service</p> <p>Garden waste is not allowed in the black residual bin.</p>
Nappy/Incontinence waste (AHP –	<p>Sack collection (from curtilage of property where possible)</p>	Every two weeks	Specialised 7.5t vehicle	Capacity agreed on Application	Opt-in free service with annual renewal requirement








Absorbent (Human) Hygiene products)	40l kerbside caddy (purple/optional) plus disposable translucent sacks (purple) 			AHP waste is also allowed in the black bin. Service optional.
-------------------------------------	--	--	---	---

TABLE 2: COMMUNAL BIN STORE AREAS

Household Waste Type	Container Provision	Frequency of collection (New Service)	Collection method (New Service)	Regulation
Food Waste	Individual silver kitchen caddy and liners/ 120l brown kerbside collection bin(s) – lined weekly 	Weekly	Vehicle 1: Food Waste Pod/ single bodied RCV with food waste pod. (Same vehicles also service large TRADE customers)	Mandatory requirement that will be strictly enforced All food waste presented is only accepted in the Orange Collection bin Participation will be monitored.
Dry recyclables: Glass bottles and jars	1100 or 660 4 x wheeled bin Black with Dark Aqua lid and Recycle Now Iconography	Bespoke frequency depending on rate of fill and no. containers		Containers will have specially modified lids (restricted apertures) and see through side panels to discourage contamination. Contaminated bins will not be emptied on collection day.

				<p>All households sharing the bin store will be issued with guidance and legal notice setting out the Council's requirements.</p> <p>Council will liaise with property management companies over compliance issues, including charging structures for contaminated recycling removal.</p>
<p>Dry Recyclables: Plastic / meal containers and cartons</p>	<p>1100l or 660l Black 4 wheeled bin with red lid and material stream specific Recycle Now Iconography</p> 			
<p>Dry Recyclables: Mixed Paper and Card</p>	<p>1100l or 660l Black 4 wheeled bin with Blue lid and Blue Recycle Now Iconography</p> 			
<p>Household Batteries / Small WEEE</p>	<p>Not accepted</p>	<p>N/A</p>	<p>N/A</p>	<p>Residents may take batteries to a range of outlets countywide. Small WEEE can be taken to HWRC's</p>


















<p>Textiles/shoes</p>	 <p>Red charity DCC/ logo disposable sack(s) (replacement left at time of collection is property address displayed on bag or can be requested from charity.)</p>	<p>Every two weeks placed out in bin store area</p>	<p>Co-Options Local Charity partner</p> 	<p>Optional service as residents may send textiles to range of charities. Textiles are not allowed in the black bin. Textiles must be kept dry.</p>
<p>Residual Waste (Non-recyclable waste), including AHP waste</p>	<p>1100l or 660l or 4 wheeled bins</p> 	<p>Bespoke frequency per location dependant on bin store size (Minimum frequency fortnightly, maximum frequency 4 weekly)</p>	<p>Refuse Collection Vehicle</p> 	<p>All residual waste must be fully contained within the allocated receptacles. Side waste is not permitted and will not be taken. Containers will have specially modified lids (restricted apertures) to prevent deposit of bulky items. Council will liaise with property management companies over compliance issues, including charging structures for excess waste removal due to non-compliance.</p>
<p>Garden Waste</p>	<p>Green Wheeled bin (140l)</p> 	<p>Every 2 weeks</p>		<p>Opt-In chargeable service Service can be arranged by property managing agent. Garden Waste is not allowed in the black residual bin.</p>

TABLE 3: HOUSEHOLDS ON SACK COLLECTIONS DUE TO STORAGE/ACCESS ISSUES

Household Waste Type	Container Provision	Frequency of collection	Collection method	Weekly Capacity	Regulation
Food Waste	7l Silver kitchen caddy OR 5l silver kitchen caddy + 23l orange kerbside caddy and supply of compostable liners 	Weekly	Kerbside Sort (DCC) 	23L	Mandatory requirement that will be strictly enforced All food waste presented is only accepted in the Orange Collection bin Participation will be monitored.
Dry recyclables: Box/bag 1: Paper (with or without grey card tbd) Box/bag 2: cans/tins, plastic bottles and containers, cartons Box/ bag 3: Glass bottles and jars Bag 4: 120l large blue bag for Brown Card or mixed card	Bag system (4 bags) or Box System (plus cardboard sack)  Plus microchipped gull proof sack to contain smaller bags kerbside (large enough to fit large flattened card OR 120l Blue card sack  plus 	Weekly		Bespoke	Separate bags and boxes for each material stream All recyclable items collected kerbside are not allowed in the black residual bin. Non-recyclable items presented will be return to resident. Boxes presented with lids, bags presented sealed. Microchipped Gull proof sacks to be provided to present bags in (subject to outcome of West Rhyll trials in 2021)
Household Batteries	Small reusable clip that clips onto the food waste caddy handle	Weekly		0.2L	Residents may take batteries to a range of outlets or present

					kerbside. Batteries are not allowed in the black residual sacks.
Small electrical devices (WEEE e.g. toasters, kettles, shavers)	Householders present in own disposable carrier bag or cardboard box to keep dry	Weekly		Max 25l	Electrical items must be small enough to fit in a carrier bag, due to limited space on collection vehicle. Larger items will be rejected and residents advised to take to nearest Household Recycling Centre.
Textiles/shoes	Red disposable sack (replacement left at time of collection if property address displayed on bag) 	Every two weeks	Co-Options (same day as Kerbside Sort) 	35L	Optional service as residents may send textiles to range of charities Textiles are not allowed in the black bin. Textiles must be kept dry Replacement sacks can be requested on demand, as well as replenished at the point of collection.





<p>Residual Waste (Non-recyclable waste) including AHP</p>	<p>Pink see through disposable sack.</p>  <p>120l Microchipped Gull proof re-usable sack in which to present pink sacks – design tbc</p> 	<p>Weekly in high density areas (West Rhyl, high streets, secondary retail areas)</p>	<p>Refuse Collection Vehicle</p> 	<p>Up to 3 x 35l sacks</p>	<p>All residual waste must be fully contained within the sealed disposable sack Side waste is not permitted and will not be taken. Households failing to separate recyclables from the residual stream will be subject to a 4 stage advisory/enforcement procedure.</p>
<p>Garden Waste</p>	<p>Green dumpy sack x 3</p> 	<p>Every 2 weeks</p>		<p>Unlimited capacity may be purchased</p>	<p>Opt-In chargeable service Garden waste is not allowed in the black residual bin.</p>




Households in rural areas currently on the disposable sacks service (because we are unable to access their collection point with an RCV) will be provided with the full recycling solution as per the standard service (trolley box etc...) and a fortnightly residual waste collection of pink disposable sacks. Gull proof sacks will be provided on request.

Please note that households receiving a weekly or fortnightly or communal bin collection service will not be eligible to join the AHP service at the point of service change. DCC is working with Welsh Government to provide recycling facilities for AHP waste. Once a recycling

facility is available the AHP service will be expanded to all households (Likely to be 2024 onwards) in order to optimise recycling performance and comply with Welsh Government grant funding conditions.

Table 4: DCC Trade Customers

Household Waste Type	Container Provision	Frequency of collection	Collection method
<p>Large customers:</p> <p>Dry recyclables: Glass bottles and jars</p>	<p>Large customers</p> <p>1100 or 660 4 x wheeled bin DCC Blue with Dark Aqua lid and Recycle Now Iconography</p> 	<p>Bespoke frequency depending on rate of fill and no. containers</p>	<p>Bespoke RCV - weekly pass with pod for food</p> 
<p>Large Customers</p> <p>Dry Recyclables: Plastic / meal containers and cartons</p>			
<p>Dry Recyclables: Mixed Paper and Card</p>			

<p>Large Customers Food Waste</p>	<p>140l 2 x wheeled bin</p> 	<p>Weekly</p>	
<p>Large Customers Residual Waste</p>	<p>1100l or 660l or 4 wheeled bins</p> 	<p>Bespoke frequencies available</p>	<p>Outsourced RCV Collections to at least 2025 (Currently Veolia)</p>
<p>Dry recyclables: Top box: Paper (with or without grey card) 40l Middle Box cans/tins, plastic bottles and containers, cartons 70l Bottom box: Glass bottles and jars 55l</p>	<p>Trolliboc stackable boxes DCC colours with coloured flaps to match Recycle Now Iconography.</p> 	<p>Weekly</p>	<p>Co-collected on RRV household service Larger SME card producers to be schedule on RCV service.</p>




	Plus labels can be purchased for brown card.		
Food Waste	23l Caddy or max 140l bin depending on needs of business 	Weekly	Co-collected on household Recycling service (caddy) or bespoke trade service (bin)
Garden Waste (Any business)	140l 2 x Wheeled Bin service 	Fortnightly	Co-collected on household service
Small customers (SME's) residual waste	140l/240l/360l 2 x Wheeled Bin service or disposable sacks 		Outsourced RCV Collections to at least 2025 (Currently Veolia)

Figure 1: Source Segregated See Bins (1100l) to be trialled at Bron Y Crest. Denbigh communal collection points 2021 onwards (colours / branding as above in Table 2). Clear panels to enable quality inspections prior to emptying. Restricted lids designed to discourage bagged waste being deposited and other non-target items.



Figure 2: Examples of a typical source segregated recycling collection vehicles, to service smaller trade recycling customers (microsites) on the domestic rounds and SMEs (Small and medium enterprises)



Report to	Waste and Recycling Project Board
Date of meeting	April 28th 2021
Lead Member / Officer	Liz Grieve, Head of Customers and Communications
Report author	Sian Owen Principal Officer – Communications, Marketing and Engagement
Title	Draft Communications Plan – Waste and Recycling Changes

1. What is the report about?

1.1. The report outlines communications around the forthcoming changes in our waste and recycling services in Denbighshire. This includes

1.1.1. General Recycling Behaviours. May 2021 –April 2022

1.1.2. West Rhyl Phase 1 Service Change. Feb 2021 –September 2021

1.1.3. Trade Waste and Communal Bin Service Change. Launch Autumn 2021

1.1.4. Denbigh Waste Transfer Station

1.1.5. General changes to the service. March 2022 – November 2023

2. What is the reason for making this report?

2.1. Approval is required on the proposed communications plan for the forthcoming changes in service provision.

